| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 02/11/18 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 03/02/23 |
| **Rhif y fersiwn:** | 2.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Adfywio a Chynllunio |
| **Maes Gwaith:** | Rheoli Datblygu |
| **Manylion cyswllt:** | cynllunio@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Ffeiliau Prosesu Ceisiadau ac Apeliadau Cynllunio – Cyfranwyr |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan gyfranwyr sy'n rhoi sylwadau ar gais cynllunio. |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu'r sylwadau a wnaethoch ar gais cynllunio er mwyn sicrhau bod eich sylwadau wedi'u hystyried wrth benderfynu ar y cais. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw i'n galluogi i roi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r cais ac i roi gwybod i chi am unrhyw apêl a ddaw i law sy'n ymwneud â'r cais. Bydd eich sylwadau chi ar y cais cynllunio ac unrhyw sylwadau dilynol o ran apêl yn cael eu hanfon ymlaen at Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i sicrhau bod eich sylwadau chi wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar yr apêl.

### Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Mae rhwymedigaeth dasg gyhoeddus i brosesu eich gwybodaeth fel y nodir gan un neu ragor o'r canlynol:

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992
Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Tir y Goron) 1995
Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990
Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 2015
Rheoliadau Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref 1992
Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995
Deddf yr Amgylchedd 1995
Deddf Iawndal Tir 1961
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999
Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Ymholiadau) 1992 fel y'i diwygiwyd

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Ddeddf, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(e) processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vested in the controller;

Er mwyn i brosesu data personol sensitif fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 9, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

2(g) processing is necessary for reasons of substantial public interest, on the basis of Union or Member State law which shall be proportionate to the aim pursued, respect the essence of the right to data protection and provide for suitable and specific measures to safeguard the fundamental rights and the interests of the data subject;

### Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl unrhyw sylwadau a wnaed. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth y mae ei fanylion ar frig y ddogfen hon.

## Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

### Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolyddion Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth.

### Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Bydd staff o fewn Tîm Rheoli Datblygu a staff Cymorth Gweinyddol y Cyngor yn cofnodi'ch sylwadau yn y gronfa ddata ceisiadau, gan gynnwys eich manylion cyswllt, at ddibenion cydnabod eich sylwadau, ail-ymgynghori â chi os bydd unrhyw newidiadau i'r cais yn dod i law ac i roi gwybod i chi os bydd unrhyw apêl sy'n ymwneud â'r cais yn dod i law.

Ni fydd eich sylwadau chi ar y cais cynllunio yn cael eu cyhoeddi ar-lein ond bydd y ffeil gynllunio gyfan, gan gynnwys eich sylwadau, yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio ac efallai y bydd copïau o'ch sylwadau chi ar gael i drydydd partïon ar gais.

Ni fydd eich enw yn berthnasol i benderfyniad y cais ond bydd eich cyfeiriad yn bwysig i bennu arwyddocâd effaith y cynnig cynllunio a gellir cyfeirio ato yn y Pwyllgor/adroddiad Dirprwyedig sy'n ymwneud â'r cais. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar-lein.

Mae'n bosibl y bydd sylwadau o ran apêl yn cael eu cyhoeddi ar-lein mewn fformat golygedig.

### Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill

Bydd y Cyngor yn darparu copi o'ch sylwadau chi i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru os bydd apêl yn ymwneud â'r cais cynllunio yn dod i law.

### Manylion am unrhyw brosesyddion data allanol

Caiff rhai ceisiadau cynllunio hanesyddol eu sganio i system rheoli dogfennau gan gwmni allanol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y gwaith prosesu hwn yn cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a bod cytundebau perthnasol ar waith.

### Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

### Manylion am y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion o geisiadau cynllunio o 1947 hyd at heddiw. Cedwir cofnodion mewn amrywiaeth o fformatau, e.e. microfiche, systemau rheoli dogfennau electronig a fformat papur. Mae'r fformat yn dibynnu ar oedran y cais.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn prosesu'r sylwadau a wnaethoch ar gais cynllunio er mwyn sicrhau bod eich sylwadau wedi'u hystyried wrth benderfynu ar y cais. Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw i'n galluogi i roi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r cais ac i roi gwybod i chi am unrhyw apêl a ddaw i law sy'n ymwneud â'r cais. Bydd eich sylwadau chi ar y cais cynllunio ac unrhyw sylwadau dilynol o ran apêl yn cael eu hanfon ymlaen at Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i sicrhau bod eich sylwadau chi wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar yr apêl.

Ni fydd eich sylwadau chi ar y cais cynllunio yn cael eu cyhoeddi ar-lein ond bydd y ffeil gynllunio gyfan, gan gynnwys eich sylwadau, yn agored i'r cyhoedd ei harchwilio ac efallai y bydd copïau o'ch sylwadau chi ar gael i drydydd partïon ar gais.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'ch gwybodaeth yw bod angen ei wneud ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd.

Ni fydd eich enw yn berthnasol i benderfyniad y cais ond bydd eich cyfeiriad yn bwysig i bennu arwyddocâd effaith y cynnig cynllunio a gellir cyfeirio ato yn y Pwyllgor/adroddiad Dirprwyedig sy'n ymwneud â'r cais. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar-lein.

Bydd y Cyngor yn darparu copi o'ch sylwadau chi i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru os bydd apêl yn ymwneud â'r cais cynllunio yn dod i law. Mae'n bosibl y bydd sylwadau o ran apêl yn cael eu cyhoeddi ar-lein mewn fformat golygedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}